

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Cynllunio

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Mehefin
2014

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 18 MEHEFIN 2014** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 11 - 28)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd 14 Mai 2014 (copi wedi'i atodi).

5 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU (Tudalennau 29 - 80)

Ystyried y ceisiadau am ganiatâd datblygu (copïau wedi'u hatodi).

6 APÊL AMLOSGFA FFORDD GLASCOED (Tudalennau 81 - 84)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) ynglŷn ag apêl a ragwelir yn erbyn gwrthod datblygiad. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir ac yn gofyn am gynrychiolaeth aelodau a chyfreithiol broffesiynol yn y broses apêl.

7 ADRODDIAD CYFLWYNO'R DIWEDDARAF AR APELIADAU (Tudalennau 85 - 98)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Datblygu (wedi'i amgáu) sy'n darparu dadansoddiad manwl o'r holl benderfyniadau apeliadau cynllunio sydd wedi cael eu gwneud o Ebrill 2013 hyd yma.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Ray Bartley (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Win Mullen-James (Is-Gadeirydd)

Ian Armstrong
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Arnold Evans
Huw Hilditch-Roberts
Colin Hughes
Rhys Hughes
Alice Jones
Pat Jones

Margaret McCarroll
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Arwel Roberts
David Simmons
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

CROESO I BWYLLGOR CYNLLUNIO CYNGOR SIR DDINBYCH

SUT GAIFF Y CYFARFOD EI GYNNAL

Oni bai bod Cadeirydd y Pwyllgor yn nodi i'r gwrthwyneb, bydd trefn y prif eitemau yn dilyn yr agenda a nodwyd ar flaen yr adroddiad hwn.

Cyflwyniad cyffredinol

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod am 9.30yb ac yn croesawu pawb i'r Pwyllgor Cynllunio.

Bydd y Cadeirydd yn gofyn a oes unrhyw ymddiheuriadau dros absenoldeb a datganiadau o fuddiannau.

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd Swyddogion i roi cyflwyniadau byr i'r eitemau ar yr agenda.

Bydd Swyddogion yn amlinellau (fel ag sy'n briodol) eitemau a fydd yn cynnwys siarad cyhoeddus, ceisiadau ar gyfer gohirio, eitemau sydd wedi'u tynnu'n ôl, ac unrhyw eitemau Rhan 2 lle bydd y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd. Bydd cyfeiriadau at unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddosbarthwyd yn Siambr y Cyngor cyn dechrau'r cyfarfod, gan gynnwys y taflenni sy'n crynhoi cyflwyniadau/newidiadau hwyr (taflenni glas) ac unrhyw gynlluniau atodol neu ddiwygiedig sy'n ymwneud ag eitemau i'w trafod.

Mae'r 'Taflenni Glas' yn cynnwys gwybodaeth bwysig, gan gynnwys crynodeb o ddeunydd a dderbyniwyd mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda rhwng cwblhau'r prif adroddiad a'r diwrnod cyn y cyfarfod. Mae'r taflenni hefyd yn nodi trefn arfaethedig y ceisiadau cynllunio, sy'n cymryd i ystyriaeth unrhyw geisiadau i siarad yn gyhoeddus.

Mewn perthynas â threfn yr eitemau, bydd disgwyl i unrhyw Aelodau sydd am ddwyn eitem i'w thrafod wneud cais yn union ar ôl cyflwyniad y Swyddogion. Rhaid i unrhyw gais o'r fath fod yn gynnig ffurfiol a bydd pleidlais ar y cais.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys 30 o Aelodau Etholedig. Yn unol â phrotocol, mae'n rhaid i 50% o Aelodau'r Pwyllgor fod yn bresennol i sefydlu cworwm ac i sicrhau bod modd ystyried eitem a phleidleisio ar eitem.

Caiff Cynghorwyr Sir sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio fynychu a siarad ar eitem, ond ni allant wneud cynnig, na phleidleisio.

YSTYRIED CEISIADAU CYNLLUNIO

Y drefn i'w dilyn

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r eitem sydd i'w thrafod nesaf. Mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, cyhoeddir rhif y cais, sail y cynnig a'r lleoliad, yr Aelodau lleol perthnasol ar gyfer yr ardal, ac argymhelliad y Swyddog.

Os oes yna siaradwyr cyhoeddus ar eitem, bydd y Cadeirydd yn eu gwahodd i annerch y Pwyllgor. Os oes siaradwyr yn erbyn ac o blaid cynnig, gofynnir i'r siaradwr sydd yn erbyn i siarad yn gyntaf. Bydd y Cadeirydd yn atgoffa siaradwyr bod ganddynt hyd at 3 munud i annerch y Pwyllgor. Mae gan siarad cyhoeddus ei brotocol ei hunan.

Lle bo hynny'n berthnasol, bydd y Cadeirydd yn cynnig cyfle i'r Aelodau ddarllen unrhyw wybodaeth hwyr ar yr eitem ar y 'Taflenni Glas' cyn parhau.

Os oes unrhyw Aelod am gynnig y dylid gohirio eitem, gan gynnwys ceisiadau i Banel Archwilio Safle ymweld â'r safle, dylid gwneud y cais ynghyd â'r rheswm cynllunio, cyn unrhyw siarad cyhoeddus neu drafodaeth am yr eitem honno.

Cyn unrhyw drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn gwahodd swyddogion i roi cyflwyniad cryno i'r eitem lle credir bod hyn yn werth chweil yng ngolau natur y cais.

Mae sgriniau arddangos yn Siambr y Cyngor a ddefnyddir i ddangos ffotograffau neu gynlluniau a gyflwynir gyda cheisiadau. Cymerir y ffotograffau gan Swyddogion i roi argraff gyffredinol i Aelodau o safle a'i amgylchedd, ac nid eu bwriad yw cyflwyno achos o blaid neu yn erbyn cynnig.

Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi bod yr eitem yn agored am drafodaeth ac yn rhoi cyfle i Aelodau siarad a rhoi sylwadau am yr eitem.

Os oes unrhyw gais wedi bod yn destun Panel Archwilio Safle cyn y Pwyllgor, bydd y Cadeirydd fel rheol yn gwahodd yr Aelodau hynny a fynychodd, gan gynnwys yr aelod lleol, i siarad yn gyntaf.

Yn achos yr holl geisiadau eraill, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r aelod(au) lleol siarad yn gyntaf, os yw ef/nhw yn dymuno gwneud hynny.

Fel rheol, rhoddir hyd at bum munud i Aelodau siarad, a bydd y Cadeirydd yn llywio'r drafodaeth yn unol â Rheolau Sefydlog.

Unwaith bod aelod wedi siarad, ni ddylai ef/hi siarad eto oni bai ei fod ef/hi am esboniad o bwyntiau a gododd yn y drafodaeth, a rhaid i hynny hefyd ddigwydd ar ôl i'r holl Aelodau eraill gael cyfle i siarad, a gyda chaniatâd y Cadeirydd.

Ar derfyn trafodaeth yr Aelodau, bydd y Cadeirydd yn gofyn i Swyddogion ymateb yn ôl yr angen i gwestiynau a phwyntiau a godwyd, gan gynnwys cyngor ar unrhyw benderfyniad sy'n mynd yn groes i'r argymhelliad.

Cyn symud ymlaen at y bleidlais, bydd y Cadeirydd yn gwahodd neu'n gofyn am eglurhad o gynigion ac eilyddion i'r cynigion o blaid neu yn erbyn argymhelliad y Swyddog, neu unrhyw benderfyniadau eraill sy'n gofyn am ddiwygiadau i gynigion. Pan gaiff cynnig ei wneud yn groes i argymhelliad y Swyddog, bydd y Cadeirydd yn gofyn am eglurhad o'r rheswm/rhesymau cynllunio dros y cynnig hwnnw, er mwyn i hyn gael ei gofnodi yng Nghofnodion y cyfarfod. Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn gofyn am sylwadau gan y Swyddog Cyfreithiol a Chynllunio am ddilysrwydd y rheswm/rhesymau a nodwyd.

Bydd y Cadeirydd yn gwneud cyhoeddiad i nodi bod y drafodaeth ar ben, a bod y pleidleisio i ddilyn.

Y drefn bleidleisio

Cyn gofyn i Aelodau bleidleisio, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi pa benderfyniadau a wnaed a sut fydd y bleidlais yn cael ei chynnal. Gellir gofyn am esboniad pellach ynghylch newidiadau, amodau newydd ac ychwanegol a rhesymau dros wrthod er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amwysedd yn yr hyn y mae'r Pwyllgor yn pleidleisio o'i blaid neu yn ei erbyn.

Os yw unrhyw aelod yn gwneud cais am Bleidlais wedi'i Chofnodi, mae'n rhaid ymdrin â hyn yn gyntaf yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Bydd y Cadeirydd a Swyddogion yn egluro'r drefn i'w dilyn. Bydd enwau bob un o'r Aelodau pleidleisio sy'n bresennol yn cael eu galw allan, a bydd gofyn i'r Aelod nodi a yw eu pleidlais o blaid neu yn erbyn rhoi caniatâd neu ymwrthod. Bydd Swyddogion yn cyhoeddi canlyniad y bleidlais ar yr eitem.

Os yw pleidlais arferol i ddigwydd trwy gyfrwng y system bleidleisio electronig, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddogion weithredu'r sgrin bleidleisio yn y Siambr, a phan ofynnir iddynt wneud hynny, mae'n rhaid i'r Aelodau gofnodi eu pleidlais drwy bwysu'r botwm priodol.

Mae gan Aelodau 10 eiliad i gofnodi eu pleidleisiau unwaith bo'r sgrin wedi ymddangos.

Os yw'r system bleidleisio electronig yn methu, gellir cynnal y bleidlais drwy ddangos dwylo. Bydd y Cadeirydd yn esbonio'r drefn sydd i'w dilyn.

Ar derfyn y bleidlais, bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ar yr eitem.

Pan fydd penderfyniad ffurfiol y Pwyllgor yn groes i argymhelliad y Swyddog, bydd y Cadeirydd yn gofyn i Aelodau gytuno'r broses a ddefnyddir i ddrafftio amodau cynllunio neu resymau dros wrthod, er mwyn rhyddhau'r Tystysgrif Penderfyniad (e.e. dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Cynllunio, i'r Swyddog Cynllunio mewn cysylltiad ag Aelodau Lleol, neu drwy gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer cadarnhad).

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CYNLLUNIO

TREFN BLEIDLEISIO

Atgoffir yr aelodau o'r drefn i'w dilyn wrth bleidleisio i roddi neu i wrthod caniatâd cynllunio. Bydd y Cadeirydd neu'r Swyddogion yn esbonio'r drefn i'w dilyn fel y bo angen.

Unwaith y bydd y sgriniau arddangos yn y Siambr wedi eu clirio yn barod ar gyfer y pleidleisio a phan fydd y sgrîn bleidleisio yn ymddangos, bydd gan y Cynghorwyr 10 eiliad i gofnodi eu pleidlais fel a ganlyn:

Ar y bysellfwrdd pleidleisio, pwyswch y

<p>+ i RODDI caniatâd - i WRTHOD caniatâd 0 i BEIDIO â phleidleisio</p>
--

Neu yn achos eitemau Gorfodi:

<p>+ i AWDURDODI Camau Gorfodi - i WRTHOD AWDURDODI Camau Gorfodi 0 i BEIDIO â phleidleisio</p>
--

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mercher 14 Mai 2014 am 9.30am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J.R. Bartley, J A Butterfield, W L Cowie, M Ll. Davies, J.M. Davies, R J Davies, S.A. Davies, P A. Evans, H Hilditch-Roberts, C. Hughes., T.R. Hughes, P M Jones, M. McCarroll, W M Mullen-James, R M Murray, P W Owen, T M Parry, A Roberts, D Simmons, W.N. Tasker, J Thompson-Hill , J S Welch, C H Williams, C L Williams a H O Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Graham Boase), Pen Gyfreithiwr (Cynllunio a Phrifyrdd) (Susan Cordiner), Rheolwr Datblygu (Paul Mead), Pen Swyddog Cynllunio (Ian Weaver), Swyddog Cynllunio (David Roberts), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (Gwen Butler), Uwch Swyddog Cefnogaeth (Judith Williams) a'r Cyfieithydd (Catrin Gilkes). Angela Loftus (Rheolwr Cynllun Datblygu Lleol a Pholisi) Claire Macfarlane (Swyddog Cynllun Datblygu Lleol a Pholisi) a Denise Shaw (Swyddog Cynllunio - Ynni Adnewyddadwy) yn bresennol am ran o'r cyfarfod

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr I W Armstrong, J A Butterfield, J Chamberlain-Jones, E.A. Jones a D Owens.
(Wrth gyflwyno ei hymddiheuriadau, gofynnodd y Cynghorydd J Chamberlain-Jones am i nodyn gael ei wneud nad oedd yn gallu mynychu'r Pwyllgor Cynllunio oherwydd gwrthdaro yn ei dyddiadur gyda Panel Maethu.)

Nodwyd bod y Cynghorydd Ray Bartley wedi cymryd lle'r Cynghorydd Peter Duffy fel cynrychiolydd y Grŵp Annibynnol ar y Pwyllgor Cynllunio a hynny ar unwaith.

Atgoffwyd yr Aelodau am eu rhwymedigaeth i gynnal lefel o hyfforddiant mewn materion Cynllunio i sicrhau eu bod yn gymwys i bleidleisio ar geisiadau cynllunio. Nodwyd, fodd bynnag y gall yr Aelodau hynny heb yr hyfforddiant angenrheidiol bleidleisio ar y holl faterion eraill ar y rhaglen.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim

3 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

Cafodd y Cynghorydd Ray Bartley ei enwebu gan y Cynghorydd Joe Welch, a'i eilio gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

Cafodd y Cynghorydd Win Mullen-James ei enwebu gan y Cynghorydd Joan Butterfield, a'i eilio gan y Cynghorydd Bill Tasker.

Anerchodd yr ymgeiswyr y pwyllgor a chynhaliwyd pleidlais gudd. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

15 o bleidleisiau i'r Cynghorydd Ray Bartley
10 pleidlais i'r Cynghorydd Win Mullen-James

Yn unol â'r cyfansoddiad cafodd y Cynghorydd Ray Bartley ei ethol yn briodol yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

Cymerodd y Cynghorydd Bartley y Gadair a diolchodd i'r Pwyllgor. Canmolodd hefyd gwaith y Cynghorydd Win Mullen James yn ystod ei blwyddyn fel Cadeirydd

Diolchodd y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies a H Hilditch Roberts hefyd i'r Cynghorydd Win Mullen James am ei chefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

4 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.

Cafodd y Cynghorydd Win Mullen-James ei enwebu fel Is-Gadeirydd gan y Cynghorydd Joan Butterfield, a'i eilio gan y Cynghorydd Bill Tasker.

Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill, cafodd y Cynghorydd Win Mullen James ei ethol yn briodol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn ddinesig i ddod.

5 MATERION BRYD: Dim

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 Ebrill 2014.

Cytunwyd fel cofnod cywir:

5 CEISIADAU AM GANIATÂD DATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhestru ceisiadau a gyflwynwyd ac y mae angen i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio, fel sy'n berthnasol, dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1991 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r cynigion sy'n cynnwys y ceisiadau canlynol yn unol â'r amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir:-*

Cais Rhif: 12/2013/1384/PO

Lleoliad: Tir oddi ar Crud Yr Awel Clawddnewydd Rhuthun

Disgrifiad: Datblygu 0.07 hectar o dir drwy godi 2 annedd ar wahân (cais amlinellol - pob mater wedi'i gadw'n ôl)

Gofynnodd y Cynghorydd M Lloyd Davies a fyddai'r cais hwn yn effeithio ar y ddarpariaeth o dai fforddiadwy.

Cododd y Cynghorydd Colin Hughes bryderon nad oedd Sir Ddinbych wedi darparu cymaint o dai fforddiadwy â Siroedd cyfagos.

Dywedodd Ian Weaver (Pen Swyddog Cynllunio) bod y cais hwn gerbron y Pwyllgor i ganiatáu dadl ar yr union fater hwn yn dilyn apêl a ganiatawyd ar safle yng Nghyffylliog - lle cafodd tir ei isrannu ac ni ddarparwyd tai fforddiadwy. Mae'r cais hwn yn codi materion tebyg, gyda'r safle yn rhan o ardal tai ddynodedig fwy, yn y ffin ddatblygu, o'r un berchnogaeth. Dangosodd dyfarniad yr apêl yng Nghyffylliog ei bod yn bwysig delio â'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn gynnar, pe bai is-rannu'n digwydd.

Roedd y cais hwn am 2 dŷ, sy'n is na'r lefel sbarduno Tai Fforddiadwy, ac nid yw'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer manau agored ar gyfer y datblygiad mwy posibl ar hyn o bryd. Awgrymir amod i sicrhau darparu tai fforddiadwy.

Mynegodd y Cynghorwyr bryder ynglŷn â chymhlethdod tai fforddiadwy fel mater ehangach.

Cynigion:

Cynigiodd y Cynghorydd H. O. Williams y dylid RHOI caniatâd Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. Parry

PLEIDLAIS:
Pleidleisiodd 22 i GANIATÁU
Pleidleisiodd 0 i WRTHOD
0 yn Ymatal

FELLY RHODDWDYD CANIATÂD

Yn amodol ar:

Cywiriad i Reswm dros Amod Rhif 6 a 7.

6. Er mwyn cydymffurfio â pholisïau tai fforddiadwy a fabwysiadwy, atal isrannu safle tai dynodedig a fyddai'n creu'r posibilrwydd o osgoi'r polisi, er mwyn sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy.

7. Er mwyn cydymffurfio â'r polisi mannau agored a fabwysiadwy, atal isrannu safle tai dynodedig a fyddai'n creu'r posibilrwydd o osgoi'r polisi, er mwyn sicrhau y darperir mannau agored.

Nodyn newydd a Awgrymir i'r Ymgeisydd:

Mewn perthynas ag Amodau 6 a 7 y caniatâd hwn, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Swyddog Cynllunio i drafod y dull i'w fabwysiadu i ddarparu Tai Fforddiadwy a Mannau Agored mewn cysylltiad â datblygu safle'r cais a'r safle tai dynodedig mwy.

Cais Rhif: 16/2013/1542/PF

Lleoliad: Ystâd Plas Llanbedr Llanbedr Dyffryn Clwyd
Rhuthun

Disgrifiad: Trawsnewid hen dŷ boeler/ tŷ gwydr yn annedd sengl
a chodi tŷ haf atodol

Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol:

Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynllunio PLP ar ran D Hughes, Carneddi, Llanbedr DC

Siaradwyr Cyhoeddus:

Mr Guy Alford (Yn erbyn)

Heriodd Mr Alford argymhelliad y swyddog, gan awgrymu y dylid cadw at y polisïau. Dywedodd Mr Alford bod y safle hwn mewn cefn gwlad agored ac AHNE ac nad yw anwybyddu polisi'r CDLI oherwydd caniatâd blaenorol yn rhesymegol. Nid yw'r datblygiad yn darparu'r tai fforddiadwy sy'n ofynnol gan Bolisi PSE4. Anogodd Mr Alford y pwyllgor i wrthod caniatâd ar y sail hon. Roedd hefyd yn pryderu y byddai'r fynedfa i'r safle hwn yn ei agor i fyny ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Rhys Davies (O blaid)

Siaradodd Mr Davies o blaid, gan ddatgan mewn ymateb i gyflwyniad Mr Alford, nad yw'r mynediad yn agor meysydd eraill i fyny i'w datblygu ac awgrymodd bod y perchennog wedi cyfathrebu'n dda gyda phawb dan sylw. Roedd y Pwyllgor AHNE o blaid y "dyluniad arloesol" sydd yn destun y diwygiad hwn i ganiatâd presennol. Ailadroddodd Mr Davies, gan fod caniatâd yn bodoli, y gallai'r adeilad hwn gael ei ddatblygu nawr, ond mae'r gwelliant hwn, ym marn Mr Davies, yn gynllun gwell. Mae'n addasiad sensitif yn cyflwyno elfennau i adlewyrchu hanes hwn fel tŷ gwydr. Byddai'r ystafell ardd fechan arfaethedig yn llai na'r garej sengl ac nid oedd unrhyw fwriad i ailddatblygu'r hwn.

Mynegodd y Cynghorydd H O Williams gefnogaeth i bryderon a godwyd gan Mr Alford. Roedd y Cynghorydd Williams wedi treulio llawer iawn o amser ar faterion Plas Llanbedr, a dywedodd nad oedd pobl leol eisiau i fynedfa gael ei hadeiladu, ond roedd hyn yn rhan o'r penderfyniad apêl a wrthdrödd y

penderfyniad i wrthod yn 2011. Roedd yn pryderu am y golled arfaethedig o goed ac ni fyddai'n gallu cefnogi'r cais.

Gofynnodd Aelodau eraill a oedd seiliau cynaliadwy dros wrthod; a ellid wynebu'r ffordd newydd â deunydd nad yw'n adlewyrchu er mwyn toddi'n well i ochr y mynydd; ac oedran y coed sydd i'w torri.

Ymatebodd y swyddogion i esbonio fod y safle wedi caniatâd cynllunio ond awgrymwyd dylai'r dyddiad cychwyn fod yr un fath â'r caniatâd sy'n bodoli i osgoi cynyddu oes y caniatâd cynllunio. Roedd y coed i'w torri yn cynnwys rhai aeddfed i'r de o'r adeilad. Y bwriad yw cadw un goeden Ywen, yr amcangyfrifir iddi fod yn 188 mlwydd oed ond roedd un debyg y byddai'n rhaid ei thorri am ei bod mor agos i'r adeilad.

Roedd y fynedfa eisoes wedi cael ei chymeradwyo ond byddai swyddogion yn gofyn am fanylion y deunyddiau sydd i'w defnyddio. Mae'r CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu tai fforddiadwy, ond mae'r caniatâd sy'n bodoli yn seiliedig ar y polisi blaenorol yn gorbwysu'r gofyniad hwnnw.

Cynigion:

Cynigiodd y Cyng H O Williams WRTHOD caniatâd ar y sail nad yw'r cynnig yn cydymffurfio â gofyniad Polisi PSE 4 i ddarparu tai fforddiadwy ac effaith annerbyniol y tŷ haf arfaethedig tu allan i'r cwrtil, o fewn yr AHNE. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd H Hilditch Roberts.

AR ROI'R CAIS I'R BLEIDLAIS:

Pleidleisiodd 8 i GANIATÁU

Pleidleisiodd 12 i WRTHOD

1 yn Ymatal

FELLY GWRTHODWYD CANIATÂD

Gwnaed y penderfyniad, yn groes i argymhelliad y Swyddogion, ar y sail bod y cynigion yn groes i bolisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

Y rhesymau a ddrafftwyd -

1. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, nid yw'r cynigion yn cydymffurfio â phrawf ii Polisi PSE4 o Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych o ran nad yw'r anedd yn cael ei chynnig fel uned fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, ac felly ni fyddai'n cyfrannu at gyflawni tai fforddiadwy yn unol â strategaethau'r Cyngor.
2. Nid yw'r cynnig i ymestyn y cwrtil preswyl tu hwnt i'r hyn a gymeradwywyd fel rhan o'r caniatâd cynllunio sy'n bodoli 16/2009/1155/PF, gan gynnwys datblygu tŷ haf ar wahân, yn cael ei ystyried yn dderbyniol mewn egwyddor ac o ran effaith ffisegol o ran Polisi VOE2 o Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych gan y

byddai'n cael effaith weledol annerbyniol ac yn achosi niwed annerbyniol i gymeriad ac ymddangosiad y dirwedd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Bydd y rhesymau dros wrthod yn cael eu cytuno gyda'r cynigydd a'r eilydd, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

Cais Rhif: 18/2014/0303/TP

Lleoliad: 11 Parc Tyn Llan Llandyrnog Dinbych

Disgrifiad: Torri coeden sycamorwydden Rhif T1 a thocio coed sycamor a llwyfen gan 30 y cant yn Ardal G1 a ddangosir ar y cynllun a atodir i Orchymyn Cadw Coed Cyngor Dosbarth Glyndwr 1996

Dosbarthwyd cynllun cliriach.

Trafodaeth Gyffredinol:

Doedd gan y Cyng Merfyn Parry ddim gwrthwynebiad a chynigwyd CANIATÁU argymhelliad y Swyddogion. Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd H Hilditch Roberts.

PLEIDLAIS:

Pleidleisiodd 22 i GANIATÁU

Pleidleisiodd 0 i WRTHOD

0 yn Ymatal

FELLY RHODDWDYD CANIATÂD

Cais Rhif: 45/2014/0193/PF

Lleoliad: Tir yn cyffinio â 21 Stanley Park Avenue, Y Rhyl

Disgrifiad: Codi garej ddwbl unllawr a tho ar ongl.

Dywedodd y Cynghorydd Bill Tasker nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor, ond gofynnodd am i'r safle gael ei fonitro er mwyn sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn ei ddefnyddio i storio deunyddiau adeiladu ar gyfer ei fusnes. Gofynnodd y Cyngorwyr eraill am eglurhad ar y rheolau sy'n ymwneud â busnesau yn y cartref. Eglurodd swyddogion os caiff amwynder preswyl ei newid gan y gweithgaredd neu bod y cydbwysedd yn fwy tuag at y busnes, byddai angen caniatâd. Byddai'n bwysig adolygu gweithgareddau.

Dywedodd y Cyng W Mullen James wrth y Pwyllgor bod parcio yn broblem yn yr ardal hon a dylid gosod cyfyngiadau ar storio cerbydau a pheiriannau mawr.

Cyfeiriodd y swyddogion y pwyllgor at Amod 3 a oedd yn cynnwys gweithgareddau masnachol.

Cynigiodd y Cyng Bill Tasker y dylid **RHOI CANIATÂD**. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M. Lloyd Davies.

PLEIDLAIS:
Pleidleisiodd 22 i GANIATÁU
Pleidleisiodd 0 i WRTHOD
0 yn Ymatal

Felly rhoddwyd CANIATÂD

EITEM 8

AILYSTYRIED CAIS CYNLLUNIO

NEWID DEFNYDD BWYTY AR LEFEL LLAWR CYNTAF I 2 FFLAT HUNANGYNHWYSOL

72 QUEEN STREET, Y RHYL

CAIS RHIF. 45/2014/0116/PF

Cyflwynwyd: adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Eglurodd Paul Mead, y Rheolwr Datblygu, yr amgylchiadau a arweiniodd at wrthod caniatâd yn y Pwyllgor diwethaf, a chais y Swyddogion am adolygu'r penderfyniad

Pryderon priffyrdd a roddwyd fel y rheswm dros wrthod ond yn dilyn trafodaethau gyda Swyddogion Priffyrdd roedd yn amlwg, o ystyried lleoliad y safle ger canol y dref gyda meysydd parcio lleol addas, nad oedd hyn yn rheswm cynaliadwy ar gyfer gwrthod y cais. Ymgynghorwyd hefyd â Thîm y Rhyl yn Symud Ymlaen ac roeddent yn gyfforddus gyda'r datblygiad hwn - gan ddweud y byddai ffocws yn y dyfodol ar gyfer adeiladau busnes yn cael ei gyfyngu i ardal lai o ganol y dref, ac y byddai'r eiddo hyn ar y cyrion a fyddai'n fwy preswyl o ran eu natur.

Ailadroddodd y Cynghorydd J Butterfield ei farn bod y gwaith o ddymchwel tai yn y Rhyl yn creu problem ac yn teimlo nad yr ardal hon yn addas ar gyfer fflatiau.

Roedd y Cynghorydd Bill Cowie yn meddwl y byddai trigolion posibl yn ystyried a oedd parcio yn broblem iddynt cyn symud i mewn i eiddo o'r fath a dywedodd y byddai'n well ganddo iddo gael ei feddiannu na'i adael yn wag.

Cytunodd y Cyng M Parry gyda'r Cynghorydd Cowie a gofynnodd am i wneud yr adeilad yn un gwrthsain i amddiffyn trigolion rhag sŵn o'r bwyty.

Eglurodd swyddogion fod y bwyty i'w drawsnewid ar y llawr cyntaf a bod cyfyngiadau polisi ar ddefnyddio siopau llawr gwaelod ar gyfer dibenion preswyl, felly ni ddylai sŵn o fwyty sydd ar agor yn hwyr fod yn broblem.

Cynigiodd y Cynghorydd M. Ll. Davies y dylid RHOI CANIATÂD. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bill Cowie

Cynghorwyd y rhai sy'n bwriadu pleidleisio yn erbyn y cynnig hwn yn gryf gan Graham Boase, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, i ddatgan eu rhesymau am hynny cyn mynd i'r bleidlais.

Cynigiodd y Cyng J Butterfield WRTHOD caniatâd, am y rheswm y byddai colli eiddo masnachol yn niweidiol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bob Murray.

AR ROI'R CAIS I'R BLEIDLAIS:

Pleidleisiodd 13 i GANIATÁU

Pleidleisiodd 8 i WRTHOD

1 yn Ymatal

Felly, **RHODDWDYD CANIATÂD** yn unol ag argymhelliad y swyddogion

, yn amodol ar ychwanegu'r amod cynllunio canlynol:

3. Ni chaniateir preswyllo yn yr un o'r fflatiau nes y cyflwynir ac y cymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gyfleusterau ar gyfer parcio beiciau yn ddiogel o fewn y safle, a bod y trefniadau a gymeradwywyd wedi cael eu rhoi ar waith.

Rheswm - Er mwyn sicrhau trefniadau boddhaol ar gyfer parcio beiciau er budd hygyrchedd.

EITEM 9
PROSIECT ISADEILEDD MAWR CYSYLLTIADAU FFERMYDD
GWYNT GOGLEDD CYMRU
YMGYNGHORIAD O DAN ADRAN 42 O DDEDDF CYNLLUNIO
2008

Roedd Denise Shaw (Swyddog Cynllunio Ynni Adnewyddadwy) yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Eglurodd Denise Shaw bod yr adroddiad hwn yn ymwneud ag ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio i'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer llinellau pŵer trydan uwchben o Glocaenog i Lanelwy. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn un o'r Ymgynghoreion Statudol. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am benderfyniad ynghylch dyrannu adnoddau ymroddedig i ymateb i'r prosiect pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno. Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer ymateb wedi cael ei ymestyn hyd at fis Mehefin 2014.

Siaradodd y Cynghorydd Joe Welch yn helaeth ar yr ymgynghoriad annigonol yn ei ward, gan gynnwys eiddo, Tan yr Allt, o fewn 25m i'r llinell arfaethedig nad oedd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad. Cyfeiriodd hefyd at anghywirdeb y diagramau safbwynt a gyflwynwyd. Roedd nifer o eiddo ym Mheniel a Saron wedi ei adael allan o'r ymgynghoriad ac roedd yn rhaid ailadrodd yr ymarfer. Roedd barn leol gryf y byddai peilonau mawr yn cael effaith andwyol ar dwristiaeth a'r dirwedd, ac anogodd i'r ceblau gael eu gosod o dan y ddaear.

Cytunodd y Cynghorwyr eraill, gan ddweud bod ceblau wedi cael eu gosod o dan y ddaear o'r arfordir i Lanelwy, ac y dylai ymateb y Cyngor gynnwys (ar 4.2b) "dylai'r llwybr cyfan fod o dan y ddaear" ac nid "y rhan fwyaf o'r llwybr". Mynegwyd siom na chafodd Coetir Hynafol ei adnabod fel bod yn llwybr y peilonau ac y byddai'r golygfeydd wrth y porth i Sir Ddinbych (ar Ffordd Groes) gael eu heffeithio gan beilonau yn croesi ar y pwynt hwn.

Dywedodd Denise Shaw fod y rhain yn bwyntiau dilys ond cynghorodd ar gyfer llinellau uwchben oedd y cynnig ac yn yr Ymchwiliad byddai angen amddiffyn yn gadarn pam nad yw llinellau uwchben yn dderbyniol.

Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod Cyngor Sir Ddinbych yn un o nifer o ymgynghoreion ac y dylai ymgynghoreion eraill (gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd) gyhoeddi ymateb eu hunain.

Ar y pwynt hwn, cynigiodd y Cynghorydd Colin Hughes gynnwys neges gref gan nodi dewis y Cyngor i'r ceblau gael eu gosod o dan y ddaear. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd J Butterfield a chytunwyd yn unfrydol trwy godi dwylo.

Parhaodd yr Aelodau â'r ddadl, gan godi'r materion canlynol:

- gofyn am i siroedd cyfagos a effeithir arnynt gael gwybod am farn Sir Ddinbych er mwyn cael eu cefnogaeth.
- nodi bod meysydd magnetig yn cael eu hallyrru o geblau tanddaearol a dylid cymryd hyn i ystyriaeth
- dylid defnyddio cost fel rhan o'r ddadl.
- y bydd effaith ar fywyd gwyllt.

Cyfeiriodd Swyddogion yr Aelodau at yr argymhelliad ar yr Adroddiad Atodol a fyddai'n cael ei ailddrafftio a'i rannu gydag Aelodau Lleol, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd cyn iddo gael ei roi i SPManweb fel ymateb y Cyngor.

Cafwyd cynnig pellach gan y Cynghorydd D Simmons y dylai pawb sy'n gysylltiedig ysgrifennu at eu AS/ AC yn rhoi gwybod iddynt am bryderon eu hetholwyr. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Hughes a'i dderbyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

Cynigiodd y Cyng Arwel Roberts dderbyn argymhelliad y Swyddogion, yn amodol ar yr ychwanegiadau a awgrymwyd gan y Pwyllgor. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bill Cowie

AR ROI'R CAIS I'R BLEIDLAIS:

Pleidleisiodd 23 i dderbyn argymhellion yr adroddiad

0 wedi pleidleisio yn erbyn

Nid oedd neb yn ymatal

Diolchwyd i Denise Shaw am y sesiwn briffio Aelodau diweddar a'i gwaith ar y mater hwn.

EITEM 10

CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL TAI FFORDDIADWY - MABWYSIADU'R DDOGFEN DERFYNOL

Roedd Angela Loftus a Claire Macfarlane (Adran Cynllun Lleol a Pholisi) yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

Esboniodd Angela Loftus y cefndir i'r eitem hon, gan hysbysu'r Aelodau o'r rheswm dros ostwng y gofyniad am dai fforddiadwy i 10% o'r anheddau arfaethedig ond pwysleisiodd y gall hyn godi i 30% os bydd y farchnad dai adfer. Byddai swyddogion yn monitro costau adeiladu, incwm a phrisiau tai yn flynyddol.

Mae datblygiadau llai yn gofyn am gyfraniad ariannol, ac mae manylion y rhain wedi cael eu cynnwys yn y CCA.

Lleisiodd yr aelodau'r farn bod

- Ni ymdriniwyd â Tai Fforddiadwy yn iawn yn Sir Ddinbych, mae'r "tâp coch" yn ei gwneud yn anodd i fynd ar y rhestr aros ond roedd y rhestr yn cael ei defnyddio fel dangosydd o angen am dai fforddiadwy mewn ardal benodol.
- Roedd yr elfen "Cysylltiad Lleol" yn rhy gaeth.
- Mae prisiau tai cyfartalog mewn rhai lleoliadau yn uchel, felly nid oes llawer o gyfleoedd i bobl ifanc aros. Mae niferoedd disgyblion ysgol yn gostwng o ganlyniad.
- Nid yw angen ariannol yn angenrheidiol ar gyfer y polisi pentrefannau.
- Dylai Cyngor Sir Ddinbych fod yn 'agored ar gyfer tai' yn ogystal ag 'agored ar gyfer busnes.'

Ymatebodd y swyddogion trwy gynghori eu bod yn deall y problemau o ran cael mynd ar y rhestr aros ac y buasent yn adrodd yn ôl i gydweithwyr yn yr Adran Tai.

- Mae'r polisi Pentrefannau wedi ei anelu at gadw teuluoedd ifanc lleol.
- Mae angen ariannol yn ganolog i'r polisi hwn.
- Rhaid cael rhywfaint o reolaeth dros adeiladu tu allan i ffiniau datblygu.
- Os yw'r Aelodau'n ystyried y CCA yn ddiffygiol yna dylid ei wrthod a'i ailddrafftio.
- Diffyg cyfathrebu clir - Bydd swyddogion yn ceisio trafod gyda'r Pennaeth Tai, Swyddogion Tai a staff Cynllunio perthnasol i drafod materion yn fanwl.
- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu o fis Mehefin 2014 felly gellir rhoi sylw i faterion bryd hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Stuart Davies dderbyn y CCA Tai Fforddiadwy yn unol â'r adroddiad yn amodol ar waith pellach ar y polisi Tai Fforddiadwy yn ystod yr

adolygiad o'r CDLI sy'n dechrau ym Mehefin 2014, ynghyd â'r polisïau cysylltiedig. Trafodaethau i'w cynnal rhwng Swyddogion Tai a Chynllunio ar y mater ehangach o Dai Fforddiadwy yn Sir Ddinbych a'r Aelodau i gael cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi ar bynciau perthnasol.

Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd H Hilditch Roberts.

AR ROI'R CAIS I'R BLEIDLAIS:
Pleidleisiodd 22 o blaid y cynnig hwn
1 wedi pleidleisio yn erbyn
Nid oedd unrhyw ymatal.

Felly PENDERFYNWYD bod y Canllawiau Cynllunio Atodol terfynol arfaethedig ar Dai Fforddiadwy yn cael ei fabwysiadu ar gyfer eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Bod tai fforddiadwy a pholisïau cysylltiedig o fewn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn destun trafodaeth bellach gydag Aelodau, o bosibl drwy gyfrwng sesiynau hyfforddi gyda Swyddogion o Tai, Cynllunio a gwasanaethau perthnasol eraill

EITEM 11
CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU

Datblygu Briff Dylunio - Cynnig ar gyfer Mabwysiadu

Cyflwynodd Angela Loftus yr eitem hon, gan egluro bod y cyfnod ymgynghori 8 wythnos yn cynnwys post sylweddol ac arddangosfeydd yn y llyfrgell Dinbych.

Mae'r Briff Dylunio Datblygu arfaethedig yn ymagwedd ragweithiol i ddiogelu'r Adeilad Rhestredig pwysig hwn, gan gynnwys y datblygiad galluogi isafswm i gynhyrchu digon o incwm i dalu am y gwaith angenrheidiol.

Mae hefyd yn diogelu amrywiol olygfannau pwysig o'r adeilad ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer ystyried cynigion yn y dyfodol.

Cynigiodd y Cynghorydd D Simmons fabwysiadu Briff Dylunio Datblygu Cyn Ysbyty Gogledd Cymru.

Eiliwyd hyn gan y Cyng Win Mullen James

AR ROI'R CAIS I'R BLEIDLAIS:

20 yn pleidleisio i gytuno

Pleidleisiodd 3 yn erbyn

0 yn ymatal

PENDERFYNWYD felly mabwysiadu'r Briff Datblygu Safle arfaethedig: Cyn Ysbyty Gogledd Cymru Dinbych i'w defnyddio mewn trafodaethau cyn cyflwyno ac, o ganlyniad, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL
PLANNING COMMITTEE
INDEX TO REPORT

Item No	Application No	Location and Proposal	Page No
1	18/2014/0225/PF	The Creamery Llandyrnog Denbigh Erection of 6no. silos and associated engineering works	29
2	43/2013/1318/PF	Plas Deva Caravan Park Ffordd Talargoch Meliden Prestatyn Change of use of land for the siting of up to 43 park homes for permanent residential occupation including access improvements and retention of existing building for site managers accommodation	37
3	43/2014/0013/PS	Prestatyn Football Club Bastion Gardens Prestatyn Variation of condition no. 2 of planning permission code no. 43/2008/0072 to permit the use of the floodlights between 1430hrs and 2200hrs on no more than 3 days in any 7 day period	51
4	31/2014/0432/PF	Land south of St. Asaph Business Park (south) Glascoed Road St. Asaph Continued use of land as a construction compound for up to 5 years to be used in association with Burbo Bank extension onshore works	59
5	46/2014/0438/PC	7 Deans Walk St Asaph Retention of garden storage shed (retrospective application)	71

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Heading:

REFERENCE NO. 18/2014/0225/PF
THE CREAMERY
LLANDYRNOG

Graham Boase
Head of Planning & Public Protection
Denbighshire County Council
Caledfryn
Smithfield Road
Denbigh
Denbighshire LL16 3RJ
Tel: 01824 706800 Fax: 01824 706709


 Application Site



Date 3/6/2014
Centre = 310946 E 365682 N

Scale 1/1250

This plan is intended solely to give an indication of the LOCATION of the application site which forms the subject of the accompanying report. It does not form any part of the application documents, and should not be taken as representative of the proposals to be considered, which are available for inspection prior to the meeting.



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnamo 100023408
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023408

ITEM NO: 1
WARD NO: Llandyrnog
WARD MEMBER(S): Cllr Mervyn Parry
APPLICATION NO: 18/2014/0225/ PF
PROPOSAL: Erection of 6no. silos and associated engineering works
LOCATION: The Creamery Llandyrnog Denbigh
APPLICANT: Mr Nigel Tynan Arla Foods
CONSTRAINTS:
PUBLICITY Site Notice – No
UNDERTAKEN: Press Notice – No
Neighbour letters - Yes

REASON(S) APPLICATION REPORTED TO COMMITTEE:
Scheme of Delegation Part 2

- Recommendation to grant / approve – 4 or more objections received

CONSULTATION RESPONSES:

LLANDYRNOG COMMUNITY COUNCIL

"Whilst being supportive of the application there was no environmental impact assessment included with the application and no mention of noise levels generated - presumably there will be pumps associated with the silos. Would DCC expect an environmental impact survey with a development of this type - we'll let you answer that.

Officers therefore need to be satisfied that the levels of noise generated will not be detrimental to the amenity of the local residents and what measures are being put in place to ensure that their amenity is protected.

It is a major employer and investment is welcomed - but one must not forget local resident's amenity - whilst most factories shut about six this plant operates 24/7 the noise levels being the same day and night.

There is also an existing planning permission for balancing tanks - an onsite waste attenuation system to regulate the flow of waste to the local treatment plant and Members would prefer if the silos could be delayed until such time as the balancing tanks have been installed - whether this is a planning issue is debatable - your comments on this would be appreciated but we have every faith in the planning system that there is a compromise somewhere which will allow this permission to be granted.

The visual impact from the AONB can be minimised by ensuring the silos are suitably coloured - from Llandyrnog CC point of view that particular aspect is not an issue".

NATURAL RESOURCES WALES (NRW)

No objection.

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL CONSULTEES –

Head of Highways and Infrastructure

- Highways Officer

No objection.

- Public Protection Officer

No objections. Suggests inclusion of a suitably worded condition requiring the carrying out of a noise survey and restrictions on the noise levels which may be generated from the development.

RESPONSE TO PUBLICITY:

In objection

Representations received from:

P. Knight, Argoed, Llandyrnog (N)

Mr. & Mrs. J. & M. Williams, Y Glog, Llandyrnog (O) – Petition with 11 signatures

Summary of planning based representations in objection:

Amenity considerations- proposals may increase noise levels on a site where there are existing noise issues.

EXPIRY DATE OF APPLICATION: 15/04/14

REASONS FOR DELAY IN DECISION (where applicable):

- Additional information requested
- awaiting consideration by Committee

PLANNING ASSESSMENT:

1. THE PROPOSAL:

1.1 Summary of proposals

1.1.1 The application proposes the erection of six silos at Llandyrnog Creamery. These are proposed for storing water recovered during the cheese making process for use in the factory and for heat recovery.

1.1.2 The proposed silos would be sited to the north east of the existing complex. They range in height from 18.8 metres to 16.6 metres. The silos would be finished in a forest green colour. They would be sited on concrete slabs surrounded by a brick wall.

1.2 Description of site and surroundings

1.2.1 The creamery is located on the northern end of Llandyrnog village. It is a well-established cheese making enterprise.

1.2.2 The creamery comprises of a range of large industrial type buildings and some existing silos.

1.3 Relevant planning constraints/considerations

1.3.1 The site is located outside the development boundary of Llandyrnog, in the open countryside.

1.4 Relevant planning history

1.4.1 There have been various applications for developments on the site, the most recent application being for 'balancing tanks' in 2011. This development has not been implemented to date.

1.5 Developments/changes since the original submission

1.5.1 Following the consultation process additional information was sought by Officers regarding on the operation of the silos and noise details.

1.6 Other relevant background information

- 1.6.1 The Design and Access Statement refers to the need for the silos, the two largest silos would be used for the storage of water which will be recovered during the cheese making process. This water would be treated and used in the creamery for cleaning etc reducing the water needs on site and discharging from the site. The smaller silos would be used for heat recovery which would improve efficiency and reduce energy demands on site.
- 1.6.2 Noise data has been provided for the plant and pumps required for the silos.

2. DETAILS OF PLANNING HISTORY:

- 2.1 Various planning application for ancillary developments, the most recent is set out below.
18/2011/1513 Installation of balancing tanks and bund. Granted under delegated powers.
07/03/2012.

3. RELEVANT POLICIES AND GUIDANCE:

The main planning policies and guidance are considered to be:
Denbighshire Local Development Plan (adopted 4th June 2013)
Policy PSE 5 - Rural Economy

- 3.1 Supplementary Planning Guidance
N/A

- 3.2 Government Policy / Guidance
Planning Policy Wales Edition 6

4. MAIN PLANNING CONSIDERATIONS:

In terms of general guidance on matters relevant to the consideration of a planning application, Planning Policy Wales Edition 6, 2014 (PPW) confirms the requirement that planning applications 'should be determined in accordance with the approved or adopted development plan for the area, unless material considerations indicate otherwise' (Section 3.1.2). PPW advises that material considerations must be relevant to the regulation of the development and use of land in the public interest, and fairly and reasonably relate to the development concerned., and that these can include the number, size, layout, design and appearance of buildings, the means of access, landscaping, service availability and the impact on the neighbourhood and on the environment (Sections 3.1.3 and 3.1.4).

The following paragraphs in Section 4 of the report therefore refer to the policies of the Denbighshire Local Development Plan, and to the material planning considerations which are considered to be of relevance to the proposal.

- 4.1 The main land use planning issues in relation to the application are considered to be:

- 4.1.1 Principle
- 4.1.2 Visual Amenity
- 4.1.3 Residential Amenity
- 4.1.4 Highways Safety

- 4.2 In relation to the main planning considerations:

- 4.2.1 Principle
Planning Policy PSE 5 outlines the general intent of the Local Development Plan to help sustain the rural economy, through the support of tourism and commercial development, subject to detailed criteria relating to the character and distinctive qualities of the local landscape.

The application proposes ancillary development at an existing rural commercial enterprise which would be acceptable under policy PSE 5. The detailed impacts are set out below.

4.2.2 Visual amenity

In referring to what may be regarded as material considerations, Planning Policy Wales 3.1.4 refers to the number, size, layout, design and appearance of buildings, the means of access, landscaping, service availability and the impact on the neighbourhood and on the environment. The impact of a development on visual amenity is therefore a relevant test on planning applications. This is emphasised in Paragraph 3.1.7, which states that proposals should be considered in terms of their effect on the amenity and existing use of land and buildings in the public interest.

Six silos are proposed, these would be sited on the north eastern side of the complex, to the rear of one of the factory buildings on a piece of land formally used for car-parking. The largest silo would be 18.8 metres in height. The existing buildings range from single storey height up to approximately 15 metres, there are also existing silos on the site. The proposed silos would be finished in a forest green shade to match the existing buildings on the site.

Considering the scale of the development in relation to the existing factory complex, the proposed siting and finish, it is considered that the proposal would not conflict with planning policy relating to impact on the visual amenity of the area.

4.2.3 Residential amenity

